routes into LANGUAGES
llwybrau at ieithoedd CYMRU

## GWOBRAU RHAGORIAETH MEWN DYSGU IEITHOEDD 2013

# ATHRO IEITHOEDD TRAMOR MODERN Y FLWYDDYN 2013

**Cymhwyster** Yn agored i bob athro Ieithoedd Tramor Modern mewn Ysgolion Uwchradd a/neu Golegau Addysg Bellach yng Nghymru.

**Enwebu** Gwahoddwn ddisgyblion/myfyrwyr i enwebu athro. Bydd angen ardystiad gan y Prifathro/Pennaeth gyda cheisiadau.

**Arweiniad** Cadwch y meini prawf allweddol a nodir isod mewn cof.

Sicrhewch fod tystiolaeth yn cael ei darparu ar gyfer pob un o'r categorïau hyn.

Darparwyd gwybodaeth ychwanegol i weithredu fel anogeiriau i'ch helpu i baratoi enwebiad – efallai y dymunech ddarparu tystiolaeth ar gyfer rhai o'r pwyntiau hyn, neu'r cyfan ohonynt.

**Beirniadu** Bydd beirniaid yn dymuno arsylwi gwers a draddodir gan yr holl enwebiadau ar y rhestr fer, ac fe fyddan nhw hefyd yn dymuno cwrdd â rhai o'r disgyblion a gyflwynodd yr enwebiad.

**Dyddiad cau** Dydd Gwener 24 Mai 2013.

| CATEGORÏAU'R MEINI PRAWF ALLWEDDOL | |
|---|---|
| **Profiad yn yr ystafell ddosbarth**<br>*Sut ydych chi'n teimlo pan ydych yn eich ystafell ddosbarth ieithoedd?* | • Profiad dysgu pleserus<br>• Gweithgareddau diddorol a rhyngweithiol<br>• Defnydd da o adnoddau a thechnoleg<br>• Arddangosiadau llawn symbyliad yn yr ystafell ddosbarth<br>• Awyrgylch gadarnhaol yn yr ystafell ddosbarth |
| **Creadigrwydd**<br>*A yw eich athro'n meddwl am ffyrdd newydd a chyffrous o'ch cymell i ddefnyddio eich ieithoedd?* | • Cysylltiadau rhyngwladol<br>• Gweithgareddau trawsgwricwlaidd – anogir chi i ddefnyddio sgiliau iaith mewn pynciau eraill<br>• Cysylltiadau busnes<br>• Gweithio gyda sefydliadau allanol i wella'r profiad dysgu |
| **Cynnydd**<br>*Ydych chi'n ymwybodol o'r cynnydd rydych chi'n ei wneud gydag ieithoedd?* | • Rydych yn ymwybodol o'ch targedau<br>• Rydych yn gwybod sut i wella<br>• Rydych yn cymryd rhan mewn asesiadau<br>• Rydych yn cael adborth cadarnhaol ac anogaeth yn rheolaidd<br>• Rydych yn cael synnwyr o gyflawniad |
| **Y tu allan i'r ystafell ddosbarth**<br>*A yw eich athro ieithoedd yn cymryd rhan yng nghymuned ehangach yr ysgol/coleg?* | • Yn hawdd mynd ato/ati a hawdd cael gafael arno/arni<br>• Clybiau (amser cinio, ar ôl ysgol / coleg)<br>• Teithiau tramor<br>• Mynd y filltir ychwanegol |

CILT CYMRU

Cefnogir y gwobrau hyn gan CILT Cymru

# GWOBRAU RHAGORIAETH MEWN DYSGU IEITHOEDD 2013

Cefnogir y gwobrau hyn gan CILT Cymru